Cyfarfod:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	26 Tachwedd 2026
Teitl:	Diwygio Adran 11 Rheolau Sefydlog Swyddogion.
Awdur:	Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro Ian Jones – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Pwrpas:	Er ychwanegu gweithdrefnau manwl ar gyfer prosesau Prif Swyddogion, Sefydlu Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion a gwneud addasiadau canlynol.

Cefndir

1. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol mae proses o adolygu a diweddaru y Cyfansoddiad wedi bod ar y gweill ac adrodd i'r Cyngor. Fel rhan o'r broses yna amlygwyd angen i ychwanegu Rheolau Sefydlog manwl o fewn Adran 11 i gefnogi trefniadau dirprwyedig y Cyngor ar gyfer ymdrin a materion cyflogaeth penodol.

Rhesymeg

Gweithdrefnau Adran 11

2. Yn unol a gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 " Rheoliadau"_) mae'n ofynnol fod y Cyngor a Rheolau Sefydlog yn ymdrin a materion cyflogaeth Swyddogion. Cyferchir y gofyn yma yn Adran 11 o'r Cyfansoddiad. Yn seiliedig ar hyn mae amodau gwaith Prif Swyddogion ar yr un llaw a Prif Weithredwyr ar y llaw arall hefyd yn seiliedig ar y darpariaethau yma .

3. Wrth adolygu y Cyfansoddiad , Polisïau Cyflogaeth yr Awdurdod a'r amodau gwaith daethpwyd i'r casgliad fod angen ychwanegu darpariaethau penodol at Adran 11 ar gyfer y darpariaethau yma a gwneud newidiadau yn seiliedig ar y Cynllun Dirprwyo i sicrhau fod y trefniadau yn gyfredol ac yn cyd redeg.

4. Mae pedwar swyddog sydd a gwarchodaeth cyflogaeth statudol :

   (a) Prif Weithredwr
   (b) Sywddog Monitro
   (c) Pennaeth Cyllid (Swyddog 151)
   (d) [Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r trefniadau ar gyfer prosesau disgyblaeth y pedwar swyddog yma yn cael eu gosod allan gan statud .Mae yn drefn benodol sydd wedi ei gosod allan yn Rhan A o'r Atodiad i Adran 11. Ac eithrio penderfyniad i diswyddo y Prif Weithredwr sydd yn fater Cyngor Llawn mae'r camau yma yn nwylo y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion. Ni fydd hyn yn cael ei newid o ganlyniad i'r penderfyniadau yma.

5. Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Penaethiaid Adran yn cael eu penodi ac mae penderfyniadau disgyblu hefyd yn nwylo y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion . Fodd bynnag nid y drefn statudol yn berthnasol i'r swyddi yma. Mae'r prosesau yma wedi eu rhoi yn Rhan B o'r Atodiad i Adran 11 Ni fydd hyn yn cael ei newid o ganlyniad i'r penderfyniadau yma.

6. O ganlyniad i ychwanegu yr Atodiad i Adran 11 amlygir y newidiadau canlynol i Adran 11 yn Atodiad 1 er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gweithdrefnau a'r Cynllun Dirprwyo.

7. Ar hyn o bryd er fod Adran 11 yn cyflawni y gofynion statudol ystyrir fod angen bod yn eglur am yr union weithdrefnau fyddai yn cael eu dilyn petai mater yn dod gerbron y Pwyllgor gan bod yn benodol i'r swyddi restrir uchod.

Trefniadau Apêl.

8. Yn ôl y Rheoliadau mae'n ofynnol i Bwyllgor sydd yn gweithredu dyletswyddau y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnwys o 'leiaf 1 aelod Cabinet .

> 4 (2) Lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor yr awdurdod perthnasol yn cyflawni, ar ran yr awdurdod perthnasol, swyddogaeth penodi neu ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraffau (a), (b), (c) [F40, (ch), (f), neu (ff) o baragraff 3(1) neu'r swyddogaeth o ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(2)] –
>
> > (a)rhaid i o leiaf un aelod o'r corff gweithredu fod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; a
> >
> > (b)rhaid nad yw mwy na hanner aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod perthnasol."

9. Mae'r gofyn i gael trefn apêl ar gyfer unrhyw broses disgyblaeth yn cael ei adlewyrchu yn y trefniadau penodol yma. Fodd bynnag o ystyried y gofyn uchod byddai un anghydnaws os nad yn groes i'r ddarpariaeth yma pe na fyddai Pwyllgor Apêl yn cynnwys y trawstoriad yma o aelodaeth. Er fod gan y Cyngor Bwyllgor Apêl Cyflogaeth nid yw ei gyfansoddiad yn cyfarch y gofyn yma. Felly, ar gyfer dibenion apeliadau y swyddi uchod argymhellir sefydlu Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion . O ran nifer aelodau byddai yn cynnwys 7 aelod yn yr un modd a Pwyllgor Apêl cyfredol. Ond, byddai angen sicrhau fod o 'leiaf 1 aelod Cabinet yn aelod o'r Pwyllgor. Byddai yn cael ei benodi ar sail

balans gwleidyddol ac yn unol a threfniadau penodi pwyllgorau arferol. Disgwylir y byddai aelodau sydd yn eistedd ar y Pwyllgor yn derbyn hyfforddiant cyn cael gweithredu.

Casgliad

Ystyrir fod yr argymhellion yma yn sicrhau fod gweithdrefnau y Cyngor o amgylch materion Prif Swyddogion yn eglur ac yn sefydlu y trefniadau cyfredol o fewn y Cyfansoddiad o ran proses a rôl Pwyllgorau ac Aelodau.

Argymhelliad

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau ar yr argymhelliad i'r Cyngor.

" 1. Bod y Cyngor yn mabwysiadu Atodiad 1 i Adran 11 a'r addasiadau sy'n deillio o fewn Adran 11.

2. Bod y Cyngor yn cytuno i sefydlu Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion gan fabwysiadu'r model yn Atodiad 3 a'r newidiadau I'r Cyfansoddiad.“

Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

Pennaeth Cyllid

Dogfennau Cefndir
Amodau JNC Prif Swyddogion
Amodau Cenedlaethol Prif Weithredwyr